# ADRODDIADAU ARHOLWYR

## LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL

## IONAWR 2022



© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau’r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi'r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae’r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.


| **Uned** | **Tudalen** |
|---|---|
| Uned 1 | 1 |
| Uned 2 | 7 |
| Uned 3 | 8 |
| Uned 4 | 9 |
| Uned 5 | 10 |
| Uned 6 | 11 |


© WJEC CBAC Ltd.

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2022**

**UNED 1 IECHYD A CHLEFYDAU DYNOL**

## Rhagarweiniad a Sylwadau Cyffredinol

Uned 1 yw'r uned arholiad a asesir yn allanol ar gyfer y Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Mae'n werth 50% o gyfanswm marciau'r Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Darperir erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i ymgeiswyr bedair wythnos cyn yr arholiad (eleni cafodd hyn ei ymestyn i chwe wythnos oherwydd dyddiad gwyliau'r Nadolig) ac maent yn cael cyfle i weithio drwy'r erthygl hon yn ystod y cyfnod hwn

Mae'r cwestiynau yn Adran A y papur arholiad yn seiliedig ar yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Gallai'r cwestiynau hyn ofyn am gynnwys sydd i'w gael yn uniongyrchol yn yr erthygl, gallent ofyn i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth, neu gallent gyflwyno uned arall o waith sy'n gysylltiedig â'r hyn sydd yn yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. 25 yw'r marc uchaf ar gyfer yr adran hon.

Mae Adran B yn werth 65 marc o gwestiynau seiliedig ar fanyleb uned 1 yn ogystal ag 8-10 marc yn seiliedig ar Uned 2 ac Uned 3. Felly, mae elfen synoptig o fewn Uned 1. Bydd y cwestiynau'n profi amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys galw i gof uniongyrchol, dadansoddi, gwerthuso a sgiliau mathemategol eraill.

Dim ond nifer bach o'r ymgeiswyr oedd wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn ac roedd yn amlwg bod yr holl ymgeiswyr wedi cael digon o amser i gwblhau'r papur. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu mynegi eu hunain yn glir ac roedd diffyg terminoleg neu benodolrwydd priodol yn yr atebion; roedd hyn yn broblem mewn sgriptiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg eto eleni.

Roedd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig eto'n broblem i rai ymgeiswyr. Mae blaen y papur arholiad yn eu hatgoffa bod angen Cymraeg/Saesneg da. Roedd yn amlwg hefyd bod llawer o'r ymgeiswyr yn cael anhawster â phroblemau mathemategol syml unwaith eto. Roedd yn braf gweld bod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gyfarpar priodol h.y. pensil a phren mesur i'w defnyddio i luniadu'r graff, er bod yr ymgeiswyr wedi dewis y math anghywir o graff eto.

## Adran A – Deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw

Ffactor hygyrchedd 45.9, cyfradd ymgeisio 100%

Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi treulio rhywfaint o amser yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer adran yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Enillodd yr ymgeiswyr hyn rywfaint o farciau uchel yn Adran A. Roedd nifer bach o ymgeiswyr, fodd bynnag, heb astudio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn drylwyr ac yn methu ehangu y tu hwnt i gynnwys yr erthygl. Roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ar gael am chwe wythnos cyn yr arholiad i ganiatáu gwaith paratoi. Roedd cwestiynau'n seiliedig yn uniongyrchol ar gynnwys yr erthygl ac ar wybodaeth ehangach o'r fanyleb.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.1** Ni chafodd yr ymgeiswyr unrhyw broblem i nodi tri pheth sy'n gallu achosi pwysedd gwaed uchel; roedd y rhain wedi'u rhestru drwy'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw.

**Cw.2** Ni chafodd mwyafrif yr ymgeiswyr unrhyw broblem i esbonio un ffordd y mae deiet sydd â llawer o fraster yn gallu arwain at bwysedd gwaed uchel. Methodd llawer â chysylltu y byddai gordewdra neu fod dros bwysau yn arwain at y galon yn gorfod gweithio'n galetach.

**Cw.3** Cafodd ymgeiswyr drafferth llenwi'r tabl yn gywir gan ddefnyddio addasiadau a phwysedd gwaed cymharol y pibellau gwaed gwahanol. Mae'r wybodaeth hon yn dod yn syth o'r fanyleb a dylai fod yn hygyrch i bawb. Enillodd y rhai a oedd wedi dysgu hyn farciau da ond methodd llawer o ymgeiswyr â rhoi cynnig ar y cwestiwn.

**Cw.4** **(a)** Roedd y cyfrifiad mathemategol syml yn achosi problemau i nifer mawr o ymgeiswyr a oedd wedi defnyddio'r ffigurau anghywir. Methodd ymgeiswyr â darganfod y ffigur cywir o'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w ddefnyddio yn y cwestiwn hwn, er ei fod yn nodi'n glir lle i'w ddarganfod. Roedd hefyd yn glir nad oedd llawer o ymgeiswyr yn gwybod sut i gyfrifo canran, sy'n ofyniad mathemategol sylfaenol.

**(b)** Yma, cafodd ymgeiswyr drafferth gwahaniaethu rhwng miliwn a biliwn, hyd yn oed gyda'r ysgogiad yn y cwestiwn. Nid oeddent yn hyderus yn defnyddio ffigurau ar ffurf safonol a gwnaethant fethu cyfrifo'r gost yn llwyddiannus. Nid yw cwestiwn yn yr arddull hwn yn newydd i'r papur hwn, ond roedd llawer o ymgeiswyr yn amlwg yn cael trafferth.

**Cw.5** **(a)** Mae dadansoddi data yn sgìl arall sy'n cael ei brofi bob blwyddyn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r tueddiadau yn y data yma, ond dim ond ychydig oedd yn gallu esbonio'r duedd hon.

**(b)** Roedd y cwestiwn hwn yn defnyddio cynnwys o Uned 3, ac roedd yn amlwg nad oedd llawer o ymgeiswyr yn gwybod beth yw newidyn allanol nac yn gwybod sut gallai effeithio ar y data. Mae'n werth cofio y bydd rhwng 8 a 10 marc o'r cwestiynau yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar uned 3 ym mhob papur.

**Cw.6** Ni chafodd mwyafrif yr ymgeiswyr a roddodd gynnig ar y cwestiwn hwn unrhyw broblem i awgrymu rheswm pam mae clefyd coronaidd y galon yn llai cyffredin yn Lloegr o gymharu â'r Alban. Roedd ymgeiswyr na wnaethant ennill y marc hwn wedi nodi'n anghywir bod gan yr Alban ddwysedd poblogaeth uwch na Lloegr.

**Cw.7** **(a)** Dylai thema'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw awgrymu bod hwn yn gwestiwn posibl. Yn anffodus, roedd yn amlwg nad oedd pob ymgeisydd wedi astudio hyn ac roedd yr atebion i'r cwestiwn yn amrywio'n sylweddol. Methodd llawer â nodi'r dull sylfaenol e.e. eistedd gyda'r traed yn wastad ar y llawr, cofnodi darlleniadau oddi ar y sgrin a dadchwythu'r gyffen a'i thynnu i ffwrdd. Eto, bydd rhwng 8 a 10 marc o gynnwys Uned 2 ym mhob arholiad a dylid astudio ac adolygu hwn ar gyfer Uned 1.

**(b)** **(i)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan lawer o ymgeiswyr, ac roeddent yn gallu nodi'r amrediad pwysedd gwaed heb unrhyw broblem. Dim ond un gwerth roedd y rhai hynny a fethodd ennill marciau am y cwestiwn hwn wedi'i roi, yn hytrach nag amrediad fel sydd wedi'i nodi yn y cwestiwn.



© WJEC CBAC Ltd.

**(ii)** Ni chafodd ymgeiswyr unrhyw broblem yn gyffredinol i nodi un dewis ffordd o fyw a allai helpu i ostwng pwysedd gwaed. Nid oedd yr atebion hynny na enillodd farciau yn ddigon penodol e.e. bwyta deiet iach yn hytrach na nodi pa grŵp/grwpiau bwyd i'w cwtogi, a gwneud ymarfer corff yn hytrach na gwneud mwy o ymarfer corff.

**(c)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill un marc yma gyda datganiadau am sgil effeithiau posibl meddyginiaeth. Roedd diffyg manylion ac nid oedd yr atebion wedi'u mynegi'n ddigon clir i lawer ennill yr ail farc. Roedd yr angen am Gymraeg/Saesneg da yn hanfodol yma.

**Adran B**

Cw.8 Ffactor hygyrchedd 38.0, cyfradd ymgeisio 100%.

**(a)** Dim ond ychydig iawn o ymgeiswyr wnaeth nodi grŵp meinwe cywir fyddai'n cynnwys llawer o fitocondria a'r rheswm pam byddent i'w cael yno. Methodd yr ymgeiswyr y cyswllt rhwng y fanyleb a'r cwestiwn hwn yn llwyr. Cawsant drafferth cymhwyso'u gwybodaeth yma.

**(b)** Methodd llawer o ymgeiswyr â mynegi ateb yma gyda llawer o esboniadau hirwyntog. Roedd y rhai hynny a wnaeth ennill marc yma wedi rhoi atebion cryno a chlir a oedd yn braf ei weld.

**(c)** Ni chafodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr drafferth nodi dwy ystyriaeth foesegol cyn defnyddio'r dechnoleg a ddisgrifiwyd. Roedd y cwestiwn hwn yn gysylltiedig ag Uned 2, ac roedd ymgeiswyr yn amlwg yn hyderus yn ei ateb.

**(ch)** **(i)** Mae cyfrifo cymedr yn sgìl y byddai myfyrwyr cyfnod allweddol 3 yn gallu ei ddangos heb unrhyw drafferth. Dylai fod ymgeiswyr wedi ennill y marc hwn yn hawdd ond yn anffodus, er bod y cyfrifiadau yn gywir gan lawer, nid oeddent yn gallu talgrynnu i fyny yn gywir ac fe gollwyd y marc. Roedd yn drueni bod ymgeiswyr wedi talgrynnu 38.67 i 38.6, a oedd yn arwain at ddim marc o gwbl. Ar gyfer cyfresi yn y dyfodol, byddai'n fuddiol i ymgeiswyr pe byddai canolfannau'n eu hatgoffa o'r sgiliau sylfaenol hyn er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn gwneud y camgymeriadau hyn eto.

**(ii)** Mae cwestiwn graff ar bob papur, nid yw hyn yn rhywbeth newydd. Fodd bynnag, unwaith eto roedd ansawdd y graffiau a luniwyd yn siomedig. Lluniadodd yr ymgeiswyr graff llinell, a oedd yn anghywir. O ganlyniad, y marc uchaf y gallai'r ymgeiswyr hyn ei ennill oedd 2 – y marciau am yr echelinau a'r raddfa. Collodd ymgeiswyr eraill farciau am nad oeddent wedi gorffen labelu'r echelinau ac am ddewis y raddfa anghywir. Atgoffir ymgeiswyr bod angen iddyn nhw roi gwerth ar y tarddbwynt, ac nid oes angen i'r gwerth hwn fod yn 0. Os oedd gwerth ar goll roedd yr ymgeisydd yn colli'r marc graddfa gywir yn syth.

**(iii)** Awgrymodd mwyafrif yr ymgeiswyr reswm dichonadwy dros nifer isel y genedigaethau i fenywod 40-44 oed.



© WJEC CBAC Ltd.

**(d)** **(i)** Ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu nodi'r bond rhwng y ffosffad terfynol a'r ffosffad canol i ddangos ble mae'r rhan fwyaf o egni'n cael ei ryddhau yn ystod hydrolysis y moleciwl.

**(ii)** Ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu enwi ADP fel y moleciwl newydd.

**(iii)** Dim ond nifer bach iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu esbonio'r term 'cyfrwng cyfnewid egni cyffredinol'.

**(iv)** Eto, dim ond nifer bach iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu rhoi gwahaniaeth adeileddol rhwng niwcleotid mewn RNA ac ATP. Collodd nifer o ymgeiswyr y marc hwn gan eu bod wedi methu rhoi datganiad sy'n cymharu ac roedd yn amlwg mai dim ond ychydig iawn o ymgeiswyr oedd wedi adolygu'r gwaith hwn am ATP.

**Cw.9** Ffactor hygyrchedd 29.8, cyfradd ymgeisio 100%.

**(a)** Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau da am y cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu nodi'r gydran mewn gwaed o'r iriad gwaed a'r disgrifiad.

**(b)** Methodd mwyafrif yr ymgeiswyr â nodi dwy system sy'n cael eu defnyddio i adnabod grŵp gwaed person. Roedd hwn yn dod yn uniongyrchol o'r fanyleb ac er mai dim ond rhan fach o'r fanyleb yw hi, atgoffir canolfannau y gall unrhyw ran gael ei harholi.

**(c)** Enwodd llawer o ymgeiswyr erythrocytau yn gywir yma. Ni chafodd 'celloedd coch y gwaed' ei dderbyn gan ei fod yn glir yn y fanyleb y dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r derminoleg fiolegol gywir ar gyfer y celloedd hyn.

**(ch)** Cafodd ymgeiswyr drafferth enwi cyflwr diffyg maetholion; mae'r rhain wedi'u henwi'n glir yn y fanyleb. Byddai enghreifftiau cywir eraill wedi cael eu derbyn hefyd.

**Cw.10** Ffactor hygyrchedd 32.6, cyfradd ymgeisio 97.4%.

**(a)** Byddai datganiad syml yma wedi bod yn ddigon am un marc ond nid oedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi pwrpas y llwybr atgyrch.

**(b)** Cafodd y niwronau gwahanol eu labelu'n gymharol dda, ond roedd yn glir bod ymgeiswyr naill ai'n gwybod hyn neu beidio, gyda llawer yn ennill naill ai 3 marc neu 0.

**(c)** Nid yw'r hyn sy'n digwydd yn y llwybr atgyrch yn wybodaeth newydd, ond cafodd llawer o ymgeiswyr drafferth yma. Enillodd y rhai hynny a allai ddisgrifio'r digwyddiadau farciau da ac roedd 7 pwynt marcio ar gael am y digwyddiadau a marc ychwanegol am y drefn gywir.

Roedd datganiadau anghywir o ran i le roedd y niwron synhwyraidd yn anfon y neges, a pheidio â nodi’r effeithydd, yn arwain at farciau isel iawn i rai.



© WJEC CBAC Ltd.

**(ch)** **(i)** Ni chafodd llawer o ymgeiswyr unrhyw broblem i enwi'r niwrodrawsyrrydd neu enghraifft o un.

**(ii)** Cafodd ymgeiswyr drafferth yn disgrifio rôl yr ïonau calsiwm. Dim ond ychydig iawn o farciau a roddwyd am y cwestiwn hwn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn drysu rhwng ïonau calsiwm ac ïonau sodiwm.

**Cw.11** Ffactor hygyrchedd 24.2, cyfradd ymgeisio 98.3%.

**(a)** Dim ond llond llaw o ymgeiswyr oedd yn gallu enwi protosoad fel y pathogen sy'n achosi tocsoplasmosis.

**(b)** Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr un marc yma am effaith tocsoplasmosis ond roedd yn amlwg eu bod yn drysu rhwng y cyflwr a llyngyr ac roedd llawer yn nodi colli pwysau, sy'n anghywir.

**(c)** **(i)** Atebwyd y dull trosglwyddo yn wael yma. Mae angen i ymgeiswyr nodi'n glir bod y llyngyren yn cael ei throsglwyddo mewn bwydydd sydd wedi'u halogi ag wyau llyngyr neu eiriau tebyg. Mae nodi 'o borc heb ei goginio ddigon' yn unig yn anghywir oherwydd oni bai bod y porc hwnnw wedi'i heintio neu wedi'i halogi ag wyau llyngyr, ni fydd y person yn cael llyngyren. Atebwyd yr effeithiau'n dda ac enillodd llawer 2 farc yma.

**(ii)** Nid oedd lleihau trosglwyddiad llyngyr yn broblem i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ond dylent wneud yn siŵr eu bod yn cyfeirio at hylendid bwyd da, nid dim ond golchi dwylo heb gyd-destun.

**Cw.12** Ffactor hygyrchedd 32.4, cyfradd ymgeisio 100%.

**(a)** Dylai hwn fod wedi bod yn 4 marc hawdd i bob ymgeisydd. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd gan rai ymgeiswyr syniad sut mae EEG yn edrych ac nid oeddent yn gallu enwi'r organ mae'n ei asesu. Fodd bynnag, llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i enwi ECG yn gywir ac roeddent yn gwybod bod hwn yn cael ei ddefnyddio i asesu'r galon.

**(b)** **(i) + (ii)** Eto, fel cwestiwn cysylltiedig ag Uned 2, disgwylid y byddai ymgeiswyr yn gallu labelu cyfaint anadlol a chyfaint cyfnewid. Yn anffodus, unwaith eto, nid oedd hynny'n wir a dim ond ychydig iawn a enillodd unrhyw farciau am y ddwy ran hyn.

**(iii)** Yma, roedd disgwyl i ymgeiswyr wneud cyfrifiad tynnu syml ond unwaith eto nid oedd eu sgiliau mathemategol yn ddigon da ac ychydig iawn a enillodd unrhyw farciau yma.

**(iv)** Nododd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gywir y byddai cyfaint cyfnewid neu gyfaint anadlol rhywun sy'n dioddef o asthma yn llai a gwnaethant ennill y marc yma.

**Cw.13** Ffactor hygyrchedd 23.8, cyfradd ymgeisio 94.7%.

**(a)** Roedd hwn yn gwestiwn gwahaniaethol da. Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu ennill llawer o farciau yma, os o gwbl. Nid oedd y rhan fwyaf o



© WJEC CBAC Ltd.

ymgeiswyr yn gallu nodi rolau prosesau allweddol yn ystod synthesis proteinau a dim ond yr ymgeiswyr gorau un a enillodd farciau uchel yma.

**(b)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu disgrifio un gwahaniaeth rhwng ataliad cystadleuol ac anghystadleuol, ond gwnaethant fethu ennill yr ail farc oherwydd bod y ffordd y roeddent wedi geirio'u hatebion yn golygu nad oeddent yn rhoi datganiad cymharol ar bob llinell, ac yn hytrach yn rhoi un nodwedd ar gyfer ataliad cystadleuol ar un llinell a'r pwynt i'r gwrthwyneb ar gyfer ataliad anghystadleuol ar y llall. Dim ond un marc oedd hyn yn ennill.

**(c)** Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau da yma. Roeddent yn gallu nodi'r ffactorau yn hawdd a rhoddwyd rhai disgrifiadau da a manwl a oedd yn ennill marciau uchel iddynt. Collodd ymgeiswyr farciau yma oherwydd y ffordd roeddent wedi geirio'u hatebion a diffyg manylion penodol ar gyfer y ffactor a nodwyd.

**(ch)** Dim ond ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu enwi'r model clo ac allwedd/rhagdybiaeth ffit anwythol yn gywir yma. Roedd llawer yn drysu rhwng hyn a'r 'cymhlygyn ensym-swbstrad' neu ni wnaethant ateb o gwbl.

**Crynodeb**

Roedd yn amlwg yn y gyfres hon bod y canolfannau a oedd wedi treulio rhywfaint o amser yn gweithio drwy'r deunydd oedd wedi'i ryddhau ymlaen llaw wedi ennill marciau da yn Adran A.

Roedd sgiliau mathemategol yn broblem eto eleni a dylai canolfannau fod yn siŵr eu bod yn rhoi sylw i'r agwedd hon ar y cwrs cyn yr arholiad – yn benodol dewis graffiau priodol, plotio pwyntiau'n gywir, cyfrifo canrannau a thalgrynnu i fyny/i lawr.

Roedd ansawdd ymatebion ysgrifenedig a'r defnydd o iaith pwnc-benodol yn wael eleni gan nifer mawr o ymgeiswyr, a chollwyd llawer o farciau oherwydd hyn.

Er bod y cynnwys yn ymddangos yn enfawr, mae hen ddigon o amser yn y flwyddyn i ganolfannau roi sylw i bob agwedd ar waith yr uned hon. Dylai canolfannau gyfeirio at y canllawiau i athrawon i weld faint o fanylder y dylid ei addysgu. Dylai canolfannau hefyd gofio adolygu gwaith o Unedau 2 a 3 oherwydd gellir profi'r rhain yn yr arholiad hwn. Roedd atebion i'r cwestiynau Uned 2 yn wael iawn ac yn dangos nad oedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud y gwaith hwn yn ystod eu gwersi.



© WJEC CBAC Ltd.

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2022**

**UNED 2 TECHNEGAU MESUR FFISIOLEGOL**

Nid oedd digon o ymgeiswyr i wneud sylwadau am yr uned hon.



© WJEC CBAC Ltd.

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2022**

**UNED 3 DULLIAU YMCHWIL GWYDDOR FEDDYGOL**

Nid oedd digon o ymgeiswyr i wneud sylwadau am yr uned hon.



© WJEC CBAC Ltd.

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2022**

**UNED 4 MEDDYGINIAETHAU A THRIN CLEFYDAU**

Nid oedd digon o ymgeiswyr i wneud sylwadau am yr uned hon.



© WJEC CBAC Ltd.

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2022**

**UNED 5 TECHNEGAU LABORDY CLINIGOL**

Nid oedd unrhyw ymgeiswyr ar gyfer yr uned hon.



© WJEC CBAC Ltd.

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2022**

**UNED 6 ASTUDIAETH ACHOS FEDDYGOL**

**Rhagarweiniad**

Dyma'r tro cyntaf i'r uned hon gael ei harholi ers i arholiadau gael eu canslo oherwydd y pandemig Covid-19. Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob un o'r cwestiynau. Mae'r cwestiynau yn y papur hwn yn seiliedig ar erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw sydd ar gael bedair wythnos cyn yr arholiad.

Mae'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw / ffolder adnoddau yn cynnwys gwybodaeth am dri chyflwr meddygol. Yn yr arholiad hwn y cyflyrau meddygol oedd epilepsi, canser y coluddyn a llid yr isgroen. Disgwylir i ymgeiswyr astudio ac ymchwilio'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffolder adnoddau cyn yr arholiad.

Roedd astudiaeth achos a rhywfaint o ddeunyddiau ychwanegol am bob cyflwr meddygol hefyd wedi'u cynnwys yn yr arholiad.

**Cwestiynau 1-4 Astudiaeth Achos 1: Epilepsi**

Ffactor hygyrchedd: 32.8, cyfradd ymgeisio 100%.

**Cw.1** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â'r system nerfol a sut mae synaps rhwng dau niwron yn gweithio. Roedd angen i'r ymgeiswyr alw rôl y niwron synhwyraidd a'r niwron echddygol i gof yn rhan (a). Yn rhan (b) roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r diagram i ddisgrifio'r prosesau sy'n arwain at ryddhau niwrodrawsyrrydd yn y synaps. Roedd yn amlwg o lawer o'r atebion i ran (b) bod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth wan o'r prosesau yn y synaps.

**(a)** Roedd bron bob ymgeisydd yn gallu ennill rhywfaint o farciau yn y cwestiwn cyntaf hwn drwy ddisgrifio rôl y niwron synhwyraidd neu echddygol.

**(b)** Dim ond ychydig o ymgeiswyr a enillodd farciau llawn yma. Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio'r broses yn llawn er gwaethaf yr ysgogiadau ar y diagram.

**Cw.2** Yn rhan (a) gallai bron bob ymgeisydd ennill rhywfaint o farciau wrth ddisgrifio egwyddorion EEG.

Yn rhan (b) dim ond ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio arteffact a welir yn aml ar EEG ac yna awgrymu rheswm dros ei leihau neu ei dynnu.

Yn rhan (c) roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill rhywfaint o farciau drwy gymharu'r olinau EEG, ond dim ond ychydig a lwyddodd i gyfeirio'n gywir at y gwahaniaethau yn amledd ac osgled yr olinau ac ennill y 3 marc.



© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.3** Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y cyffur gwrth-epilepsi, sodiwm falproad, sy'n cael sylw yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw a sut mae'n gweithio.

Yn rhan (a) dim ond ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu enwi grŵp X. Fodd bynnag, yn rhan (b) gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddisgrifio effaith sodiwm falproad ar glaf epileptig yn gywir.

Yn rhan (c) roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio ffigur 2 i ateb y cwestiwn. Enillodd llawer o ymgeiswyr yr holl farciau yma ac roeddent yn gallu cyfrifo'r dos dyddiol lleiaf i ddechrau yn gywir o'r wybodaeth yn ffigur 2.

Yn rhan (ch) dim ond ychydig o ymgeiswyr a roddodd awgrym cywir o ran pam mae sodiwm falproad yn cael ei roi fel presgripsiwn o ddau ddos wedi'u rhannu'n hafal er gwaethaf y cyfeiriad ym môn y cwestiwn at ei hanner oes.

**Cw.4** Yn rhan (a) roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu disgrifio o leiaf un duedd sydd i'w gweld yn ffigur 1. Mae'n bwysig nodi yma bod angen defnyddio'r data i ennill y marciau.

Yn rhan (b), ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu dewis y data perthnasol o fôn y cwestiwn ac yna cyfrifo nifer y cleifion sy’n dioddef o epilepsi yng Nghymru yn gywir.

**Cwestiynau 5-10 Astudiaeth Achos 2: Canser y Coluddyn**

Ffactor hygyrchedd: 17.9, cyfradd ymgeisio 100%.

**Cw.5** Yn rhan (a), ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio rôl helicas a DNA polymeras yn gywir i ennill marciau llawn. Enillodd llawer o ymgeiswyr un neu ddau o farciau am ddisgrifiadau rhannol neu anghyflawn.

Roedd yr un peth yn wir yn rhan (b). Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o farciau yma eto am ddisgrifiadau rhannol neu anghyflawn.

**Cw.6** Gallai bron bob ymgeisydd nodi'r term i ddisgrifio newidiadau i DNA yn gywir.
Fodd bynnag, yn rhan (b) dim ond ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio rôl proto-oncogenynnau a genynnau atal tiwmorau mewn canser.

**Cw.7** Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddisgrifio tri darn o dystiolaeth sy'n cael eu darparu drwy sampl biopsi.

Yn rhan (b) enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o farciau yn esbonio'r prosesau i baratoi sleidiau. Ychydig iawn a enillodd farciau llawn yma.

**Cw.8** Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y cyffuriau sy'n cael sylw yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i drin canser y coluddyn. Yn siomedig, dim ond rhai ymgeiswyr a enillodd y marc.

**Cw.9** Roedd angen ffigur 3 i ateb y cwestiwn hwn.
Methodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr â nodi bod nifer yr achosion o ganser y coluddyn yn uwch yng Ngorllewin Ewrop, sef y pwynt marcio cyntaf. Enillwyd marciau yn y cwestiwn fel arfer am reswm cywir dros pam mae'r cyfraddau yn wahanol.


© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.10** Roedd angen ffigur 4 i ateb y cwestiwn hwn. Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf un marc yma am adnabod y gwahaniaeth rhwng cyfraddau canser a rhyw. Eto, i ateb y cwestiwn hwn yn llawn, rhaid defnyddio'r data o'r graff hwn yn yr atebion ac nid datganiadau generig.

**Cwestiynau 11-14 Astudiaeth Achos 3: Llid yr isgroen**

Ffactor hygyrchedd: 51.4, cyfradd ymgeisio 100%.

**Cw.11** Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr nodi dau rwystr naturiol (heblaw am y croen) yn gywir a disgrifio sut mae pob rhwystr yn lleihau'r risg o'r corff yn cael ei heintio gan bathogenau.

**Cw.12** Yn rhan (a) gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr nodi un dull mae microbiolegwyr yn ei ddefnyddio i ddiheintio cyfarpar.

**(b)** Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr y ddau farc oedd ar gael am esbonio'n gywir pam mae technegau aseptig yn bwysig wrth ddelio â phathogenau heintus, gan gydnabod y risgiau i'r amgylchedd a'r gweithredydd neu'r microbiolegwr.

**Cw.13** Mae rhan (a) y cwestiwn yn canolbwyntio ar y cyffuriau sy'n cael sylw yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw, a sut maen nhw'n gweithio ar y bacteria sy'n achosi llid yr isgroen. Mae sut mae'r gwrthfiotigau hyn yn gweithio yn wahanol iawn a dim ond ychydig ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio hyn er eu bod nhw wedi'u henwi yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw.

Yn rhan (b) roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio ffigur 5 i ateb y cwestiwn. Cwestiwn ateb estynedig yw hwn. Roedd yn braf gweld llawer o ymgeiswyr yn ennill marciau llawn yn y cwestiwn hwn. I ateb y cwestiwn hwn, roedd angen i'r ymgeiswyr ddisgrifio'r tueddiadau sydd i'w gweld yn ffigur 5 ac yna trafod rhai o'r manteision a'r anfanteision o roi gwrthfiotigau yn fewnwythiennol a thrwy'r geg.

**Cw.14** Roedd angen ffigur 6 i ateb y cwestiwn hwn.

Yn rhan (a) gwnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr gydnabod bod y gostyngiad yng nghyfraddau MRSA o ganlyniad i gyflwyno mesurau rheoli ataliol cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd llawer yn methu esbonio hyn ymhellach.

Yn rhan (b) dim ond ychydig o ymgeiswyr a enillodd farciau llawn. Ni wnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr esbonio'r problemau meddygol y mae MRSA yn eu hachosi mewn cleifion.

**Crynodeb**

Mae'n bwysig iawn defnyddio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad hwn. Mae'r canolfannau a'r ymgeiswyr sy'n gwneud orau yn yr arholiad hwn wedi darllen yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ac wedi ymchwilio i wybodaeth am bob astudiaeth achos. Dylid annog ymgeiswyr i ddeall y canlynol ac ymchwilio iddynt:

- pa mor gyffredin yw clefyd a symptomau'r clefyd hwnnw
- yr achosion, a'r prosesau a ddefnyddir i wneud diagnosis, sy'n cael eu henwi yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw
- unrhyw driniaethau sydd wedi'u henwi yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw
- sut mae cyffuriau sydd wedi'u henwi yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn gweithredu ar bathogen, neu ar glaf, i leddfu symptomau


© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.